

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Mathew 26: 36-46



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 15: 14

Gofynnwch am  
help i ddod o hyd  
i'r adnod

## Stori 1 Pedr yn cysgu

Ydych chi erioed wedi mynd i gysgu ar ôl i rywun ofyn i chi aros yn effro? Fe ddigwyddodd hynny i Pedr! Roedd Pedr wedi bod yn ffrind i Iesu ers bron dair blynedd.

Roedd yn un o ddeuddeg ffrind arbennig Iesu – ei ddisgyblion. Roedd y disgyblion yn mynd i bob man gyda Iesu.

Roedd bron yn amser i Iesu farw. Aeth â'i ddisgyblion i ardd o'r enw Gethsemane. Gofynnodd Iesu i Pedr, Iago ac Ioan aros gerllaw tra oedd yn mynd ymhellach i mewn i'r ardd i weddio ar Dduw, ei Dad.



**C** Ticiwch y blychau i ddangos enw'r tri DISGYBL a aeth gyda Iesu i'r ardd.

Tomos

Jwdas

Pedr

6

Ioan

Andreas

Iago

**C** Llanwch y bylchau yn y frawddeg hon:

Aeth Iesu i'r ardd i w \_\_\_\_\_ ar ei D\_\_\_\_\_.

4



Gofynnodd i'r tri disgybl gadw golwg. Roedd Iesu'n bryderus iawn. Roedd yn gwybod ei bod yn rhaid iddo farw cyn hir a, phan fyddai'n marw, y byddai'n marw dros bechodau'r bobl. Does dim rhyfedd ei fod am weddio ar ei Dad a'i fod yn drist. Ond pan aeth yn ôl, ymhen awr, gwelodd fod y tri yn cysgu. Yn wir, aeth i ffwrdd i weddio a dod yn ôl dair gwaith ac roedden nhw'n cysgu bob tro.

4

**C Defnyddiwch y geiriau hyn i ateb y cwestiynau.**

Tri                      Awr                      Cysgu                      Tair gwaith

Beth oedd y disgyblion yn ei wneud? .....

Am faint o amser aeth Iesu i ffwrdd y tro cyntaf? .....

Sawl gwaith ddaeth Iesu yn ôl? .....

Faint o ddisgyblion oedd gyda Iesu? .....

**C Ysgrifennwch yr ateb gorau o dan y groes.**

**Fe fu Iesu farw dros:**  
y disgyblion.  
yr Iddewon.  
pechodau pawb.



2


Fe fu Iesu farw dros

.....

Ar ôl i Iesu orffen gweddio, daeth i ddeffro ei ddisgyblion. Gwyddai fod criw o ddynion yn dod a oedd yn benderfynol y byddai'n marw. Wnaeth Iesu ddim rhedeg i ffwrdd achos roedd yn gwybod ei bod yn rhan o drefn Duw y byddai'n marw. Dywedodd, "Codwch! Mae'r un a fydd yn fy mradychu yn dod!"

**C Ysgrifennwch yn y swigen siarad y geiriau a ddywedodd Iesu pan aeth i ddeffro'i ddisgyblion.**

Roedd Pedr a'r disgyblion eraill wedi siomi Iesu pan oedd arno wir angen ei ffrindiau. Mae'n rhaid i blant sy'n caru Iesu wneud eu gorau i wneud pethau sy'n ei blesio.



4




DARLLENWCH  
Mathew 26: 47-56



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Effesiaid 4: 26

Gofynnwch am  
help i ddod o hyd  
i'r adnod.

## Stori 2 Pedr yn Ymladd




Roedd Pedr wedi siomi Iesu wrth gysgu pan oedd i fod i weddio. Ond fe wnaeth Jwdas rywbeth gwaeth.

Addawodd ddweud wrth elynion Iesu lle oedd Iesu pe baen nhw'n rhoi arian iddo. Yr enw ar hyn yw 'bradychu'.

Fe wnaeth Jwdas fradychu Iesu y noson honno trwy arwain criw o ddynion trwy'r tywyllwch i ddal Iesu.

### C Ysgrifennwch yr atebion yn y Grid Geiriau.

- Beth oedd Jwdas yn disgwyl ei gael gan elynion Iesu?
- Daeth y dynion trwy'r \_\_\_\_\_ i ddal Iesu.
- Pwy wnaeth fradychu Iesu?
- Daeth y dynion i \_\_\_ \_\_ Iesu.



8

Gan ei bod yn dywyll, roedd yn anodd gwybod pa un oedd Iesu. Dangosodd Jwdas i bawb pwy oedd Iesu trwy roi cusan iddo.


### C Beth wnaeth Jwdas i Iesu? Ticiwch yr ateb cywir.

- Ysgwyd ei law.       Ei daro.
- Ei gusanu.       Ei gofleidio.

4

Pan welodd Pedr yr Arglwydd Iesu'n cael ei ddal, roedd yn flin iawn. Estynnodd ei gleddyf ac ymosod ar un o'r dynion. Torrodd ei glust i ffwrdd. Dywedodd Iesu wrtho am stopio ar unwaith. Cyffyrddodd Iesu â chlust y dyn a'i wella.

**C** Rhowch ✓ o dan y rhan o gorff y dyn a dorrodd Pedr i ffwrdd.



4



Weithiau, rydyn ni'n gwylltio fel Pedr ac yn dweud neu'n gwneud pethau drwg. Os ydyn ni'n Gristnogion, mae Iesu'n ein helpu i beidio ag ymladd na bod yn gas wrth bobl eraill.

Pan welodd y disgyblion beth oedd yn digwydd, doedden nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud. Efallai eu bod nhw'n meddwl y bydden nhw'n cael eu dal hefyd a dyma nhw'n rhedeg i ffwrdd nerth eu traed.

Does neb yn gwybod i ble'r aethon nhw. Ond aeth Pedr i guddio a dilyn o bell i weld beth fyddai'n digwydd i Iesu.



**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos pa frawddegau sy'n gywir a pha rai sy'n anghywir.

- Arhosodd y disgyblion gyda Iesu. ....
- Rhedodd y disgyblion i ffwrdd. ....
- Roedd y disgyblion yn gwybod beth i'w wneud. ....
- Dilynodd Pedr yn agos atynt. ....

4



Dydi hi ddim bob amser yn hawdd gwneud y peth iawn. Os gwnawn ni ymddiried yn Iesu, bydd ef yn ein helpu i wneud y pethau iawn.



DARLLENWCH  
Mathew 26: 69-75




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Salm 51: 7

Gofynnwch am  
help i ddod o hyd  
i'r adnod

### Stori 3 Pedr yn gwadu

Pan gafodd Iesu ei ddal a gorfod mynd i dŷ'r Archoffeiriad, fe redodd y disgyblion i gyd i ffwrdd. Efallai bod arnynt ofn y bydden nhw'n cael eu harestio hefyd.

Roedd Pedr yn wahanol. Penderfynodd ddilyn y criw a aeth â Iesu i ffwrdd, gan gadw'n ddigon pell ar eu hôl.



**C** Dewiswch y geiriau cywir i lenwi'r bylchau yn y paragraff isod.

Iesu

disgyblion

Pedr



Rhedodd y rhan fwyaf o'r

**d** \_\_\_\_\_ i ffwrdd,  
ond dilynodd **P** \_\_\_\_\_ y criw a  
ddaliodd **I** \_\_\_\_\_.

6

Eisteddodd Pedr yn iard tŷ'r Archoffeiriad. Roedd yn noson oer ac fe gynhesodd ei ddwylo wrth y tân. Roedd criw o bobl yno. Daeth morwyn at Pedr a dweud, "Roeddet ti gyda Iesu". Ond roedd ofn ar Pedr a dywedodd gelwydd. Dywedodd "Dw i ddim yn gwybod am beth rwy't ti'n siarad!"

**C** Ysgrifennwch, yn y swigen siarad, y geiriau a ddywedodd Pedr wrth y forwyn.



Dw i ddim yn

\_\_\_\_\_ am


\_\_\_\_\_ rwy't ti'n

\_\_\_\_\_!

3

Ddwy waith wedi hynny, daeth pobl at Pedr a dweud eu bod yn ei nabod fel un o'r disgyblion. A bob tro, dywedodd Pedr, "Dydw i ddim yn nabod y dyn". Dywedodd gelwydd dair gwaith. Pan fyddwn ni'n dweud bod Pedr wedi GWADU Iesu, rydyn ni'n golygu ei fod wedi dweud nad oedd yn nabod Iesu.

**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf bob un o'r pethau isod i gael gwybod beth wnaeth Pedr i Iesu dair gwaith.



2

Dyna drist nad oedd Pedr yn ddigon dewr i ddweud ei fod yn ffrind i Iesu. Yn fuan wedyn, canodd y ceiliog. Yna, cofiodd Pedr bod Iesu wedi dweud y byddai Pedr yn ei wadu dair gwaith cyn i'r ceiliog ganu.

**C** Beth glywodd Pedr i'w atgoffa o'r hyn a ddywedodd Iesu?

**C** \_ \_ \_ \_ \_ .

2

**C** Rhowch gylch o gwmpas y rhif sy'n dangos sawl gwaith wnaeth Pedr wadu Iesu.

5 3 1

2

Trodd Iesu ac edrych yn syth at Pedr. Pan sylweddolodd Pedr beth roedd wedi'i wneud, aeth allan a chrio a chrio. Roedd mor drist ei fod wedi siomi Iesu.

**C** Lliwiwch y geiriau yn yr Adnod Allweddol a'i dysgu.

“Golch fi a byddaf yn  
wynnach nag eira.”

Salm 51:7

Gallai Pedr fod wedi gweddio'r weddi hon. Roedd arno ef angen gofyn i Dduw olchi ei bechodau i ffwrdd. Ar ôl hyn, cafodd Iesu ei groeshoelio. Yno, bu farw drosom ni fel y gallai ein pechodau ni, yn cynnwys ein celwyddau ni, gael eu maddau.

Bydd Duw yn maddau i ni pan wnawn ni gyfaddef ein bod wedi gwneud rhywbeth drwg.



5



DARLLENWCH  
Ioan 21: 1-19



ADNOD  
ALLWEDDOL  
I Ioan 4: 19

Gofynnwch am  
help i ddod o hyd  
i'r adnod

## Stori 4 Pedr yn caru

Roedd Iesu wedi marw ar y groes. Roedd ei gorff wedi cael ei roi mewn bedd neu ogof. Ar fore Sul y Pasg, daeth yn ôl yn FYW! Roedd rhai o'i ddisgyblion wedi'i weld y diwrnod hwnnw!



Roedden nhw wedi'u cyffroi'n lân o wybod ei fod yn fyw. Ond wnaeth Iesu ddim aros gyda nhw. Felly aethon nhw yn ôl i Galilea a phenderfynu mynd i bysgota.

### C Rhowch y geiriau cywir yn y bylchau.

Roedd y d \_\_\_\_\_


yn falch o weld Iesu yn \_\_\_\_\_.

Ond fe benderfynon nhw fynd i b \_\_\_\_\_.

Buon nhw'n pysgota trwy'r nos heb ddal dim. Yn y bore, fe welon nhw rywun ar y lan. Iesu oedd yno ond wnaethon nhw ddim o'i nabod. Dywedodd wrthyn nhw am daflu eu rhwyd i'r ochr dde i'r cwch a bydden nhw'n dal pysgod.

### C Ysgrifennwch eiriau Iesu wrth y disgyblion yn y swigen siarad.

\_\_\_\_\_  
eich \_\_\_\_\_ i'r  
ochr \_\_\_\_\_ i'r \_\_\_\_\_.



Gwnaeth y disgyblion fel y dywedodd Iesu. Er mawr syndod, fe wnaethon nhw ddal cymaint o bysgod fel bod y rhwyd yn rhy drwm i'w chodi i'r cwch. Sylwedolodd Ioan mai Iesu oedd yno a dywedodd wrth Pedr, "Yr Arglwydd yw!" Felly neidiodd Pedr i'r dŵr a dod at Iesu.




**C** Pa ddisgybl sylweddolodd mai Iesu oedd ar y lan? I \_ \_ \_ \_ .

Pa ddisgybl neidiodd i'r dŵr? P \_ \_ \_ \_ .

2

Yna, cafodd y disgyblion frecwest gyda Iesu. Roedd ganddo dân ar y traeth i goginio'r pysgod yr oedden nhw wedi'u dal ac roedd ganddo fara hefyd.

**C** Ar y fwydlen, ticiwch y pethau a gawson nhw i frecwest.



4

Ar ôl gorffen bwyta, gofynnodd Iesu i Pedr dair gwaith, "Wyt ti wir yn fy ngharu i?" Er bod Pedr wedi siomi Iesu, atebodd yn glir iawn, "Arglwydd, rwy'ti'n gwybod fy mod i'n dy garu di".

**C** Yn y swigod siarad, ysgrifennwch beth ddywedodd Iesu a beth oedd ateb Pedr.

Wyt ti'n  
fy \_\_\_\_\_ i?

Arglwydd, rwy'ti'n  
\_\_\_\_\_  
fy mod i'n  
dy \_\_\_\_\_ di.

4

Mae'r Arglwydd Iesu'n caru pob un ohonon ni. Pan fyddwn ni'n deall ei fod ef wedi marw drosom ni ac wedi dod yn ôl yn fyw, ddylen ninnau ddweud, "Arglwydd, rwy'n dy garu di".

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddi'r y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfanswm lawr o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120